

Rhif trwydded:

**GEN / WCA / 015 / 2023**

Yn ddilys o:

**1<sup>af</sup> Ionawr 2023**

Dod i ben:

**31<sup>ain</sup> Rhagfyr 2023**

**DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981(FEL Y'I DIWYGIWYD)**  
**DEDDF GWARCHOD MOCH DAEAR 1992 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**  
**RHEOLIADAU CADWRAETH CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2017 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**TRWYDDED I LABORDAI GADW GWAED A SAMPLAU MEINWE ERAILL A GYMRWYD YN  
YSTOD YMCHWILIAD TROSEDAU**

Mae'r drwydded hon, a roddwyd o dan Adran 16 (1) (a) ac (c), 16 (3) (a) ac (c) a 16 (5) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) ("Deddf 1981"), Adran 10 (1) (a) ac (f) o Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992 ("Deddf 1992"), a Rheoliad 55 (2) (a) ac (c) o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Rheoliadau 2017 (fel y'u diwygiwyd) ("y Rheoliadau"), gan y Corff Adnoddau Naturiol Cymru elwir fel arall yn Adnoddau Naturiol Cymru (CNC), yn fodlon bod o ran y diben a nodir ym mharagraff 1 nad oes ateb boddhaol arall, yn trwyddedu personau awdurdodedig i gyflawni amrywiaeth o weithgareddau ar y rhywogaethau a restrir ac drwy hyn yn rhoi trwydded a ganlyn sy'n gymwys yn unig yng Nghymru: -

1. Mae'r drwydded hon yn caniatáu i'r meddiant a chadw samplau biolegol (gan gynnwys gwaed, DNA a samplau meinwe arall), a gymerwyd o adar gwyllt neu anifeiliaid gwyllt ar gyfer ymchwilio fforensig mewn perthynas â throsteddau neu droseddau a amheuir o dan Ddeddf 1981, Deddf 1992 neu Rheoliadau.
2. Yn amodol ar yr amodau a nodir isod, mae'r gweithredoedd canlynol a fyddai fel arall yn cael ei wahardd gan Adran 1 (2) (a) o Ddeddf 1981 yn cael eu hawdurdodi:
  - a) y meddiant a chadw, am gyfnod amhenodol, o samplau meinwe gwaed a eraill a gafwyd yn wreiddiol fel rhan o ymchwiliad fforensig.

Mae'r gwaith a nodwyd uchod wedi eu drwyddedu ar gyfer y cyfnod a nodir uchod, ac yn cael eu ganiatáu yn amodol ar gydymffurfio â'r amodau fel a nodwyd. Gall unrhyw beth a wnaed heb fod yn unol â thelerau'r drwydded fod yn drosedd.



**Arwyddwyd ar ran  
Cyfoeth Naturiol Cymru**

Ffôn/Tel 0300 065 4974 / 0300 065 4921

Ebost/Email: [trwyddedrhywogaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:trwyddedrhywogaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) or [specieslicence@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:specieslicence@naturalresourceswales.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) [www.naturalresourceswales.gov.uk](http://www.naturalresourceswales.gov.uk)

Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Correspondence welcomed in Welsh and English

## AMODAU

1. Dim ond i'r canlynol y mae'r drwydded hon yn berthnasol:
  - (a) y personau sy'n gyfrifol am sefydliadau a labordai gwyddonol cydnabyddedig, neu sy'n cael eu cyflogi ganddynt.
  - (b) samplau a gafwyd yn wreiddiol ar gyfer fel rhan o ymchwiliad fforensig.
2. Ni chaniateir i unrhyw berson a gollfarnwyd o dramgwydd y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo ddefnyddio'r drwydded hon oni bai, mewn perthynas â'r tramgwydd hwnnw, naill ai iddo (1) gael ei ryddhau gyda rhybudd, neu (2) ei fod yn berson wedi'i adsefydlu at ddibenion Deddf Adsefydlu Tramgwyddwyr 1974 ac yr ystyrir bod y gollfarn wedi'i disbyddu. Caniateir i berson ddefnyddio'r drwydded hon hefyd os, mewn perthynas â thramgwydd o'r fath, y bydd Llys wedi gwneud gorchymyn yn ei ryddhau'n gyfan gwbl. Mae'r paragraff hwn yn berthnasol i droseddau o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Ceirw 1991, Deddf (Gwarchod) Mamolion Gwylltion 1996, Deddf Hela 2004, Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaeth 2017, Deddf Gwarchod Moch Daear 1992 a Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (i gyd fel y'u diwygiwyd).
3. Bydd methu â gweithredu yn unol â diben y drwydded fel y'i nodir ym mharagraff 1, neu fetu â chydymffurfio â thelerau ac amodau'r drwydded, yn golygu na ellir dibynnu ar y drwydded ac o'r herwydd gallai tramgwydd gael ei gyflawni. Y gosb uchaf sydd ar gael ar gyfer tramgwydd o dan y Ddeddf yw dirwy lefel 5 (£5000) a/neu ddedfryd o chwe mis yn y carchar.

## NODIADAU

1. Yr un ystyr a roddir i "aderyn gwyllt" a "anifail gwyllt" ag yn adran 27 o Ddeddf 1981 a "anifail gwyllt" fel yn Rheoliad 41 (4) (a) a (b) o'r Rheoliadau.
2. Cyhoeddwyd trwydded debyg gan Natural England ar gyfer Lloegr a chan Weithrediaeth yr Alban ar gyfer yr Alban.
3. Gall y drwydded hon gael ei newid neu ei dirymu ar unrhyw bryd.